# YR ALAREB FUDDUGOL

AR OL Y DIWEDDAR

## DRA PHARCHEDIG DDEON EDWARDS,


Gan "**PERERIN**," sef

## EOS BRADWEN.

[JONES, John]


*Beirniad:—Y Parch. E. ROBERTS, (Elis Wyn o Wyrfai).*


CAERNARFON:

CYHOEDDWYD GAN YR AWDWR, 2, THOMAS STREET.

# GALAREB.

Dros gulfor y Fenai, a murmur ei lli,
Dros ddol a rhos deuai nos dawel ;—
Tra ffrydlif ac aber mor swynol eu sî,
Rhyw newydd trwm ddaeth gyda'r awel,—
Marwolaeth y Deon ! i'r bell oror aeth,
Fel cwmwl y stor'm yr ymledodd.
"Tra un yn llefaru, un arall a ddaeth,"
A'r waedd uwch yr adwaedd a redodd.
Oer accen marwolaeth oedd bruddaidd i'm bron,
Uwch sibrwd yr awel, a murmur y dòn.

Y newydd drwy gymoedd Eryri a rêd,
Mae'r bryniau pell draw'n yn ei daranu ;
Mae Seion yn wylaw a'i dwylaw ar lêd,
Ac nid oes a ddel i'w diddanu.
Gadewch i mi sibrwd y newydd yn awr
Yn nghlyw yr ystormus awelon,
Sy'n chwiban eu galar ar ben mynydd mawr,
Yn mhell o glyw'r blin bererinion ;
Fe gwympodd y cadarn fu'n arwain y gâd
Yn erbyn gelynion hen Eglwys fy ngwlad.

O Gymru fy ngwlad, mae dy golled yn fawr,
Bydd chwerw dy gŵyn am dy wron ;
Dy haul aeth dan gwmwl yn anterth dy wawr
Y dydd y bu farw dy Ddeon.
Newidiodd yr alaeth lòn gywair y gerdd,
Fu'n gysur i hen filwyr Seion,—
Am bruddaidd beroriaeth yr hen ywen werdd,
Lleddf oslef y glyn a'i accenion.
Mae'r cwmni fu'r boreu yn siriol eu gwedd,
Mor bruddaidd a'r fynwent, mor ddystaw a'r bedd.

X 20500 2594

Ti awen, fu'n tywallt i'w phiol dy win,
  Rho i mi dy iaith odidocaf;—
Yr iaith a ddiferaist yn fêl ar ei fin,
  Rho i mi dy rin gwerthfawrocaf;
Dyhidla dy wlith, ar deleidion y gerdd
  Difera dy fyrr i'w haceenion.
A'm dagrau a geidw'r dywarchen yn werdd
  Ar y bedd lle mae'n gorwedd ein gwron,
O dod i bererin er cof am a fu,
Dy gymorth i ganu am gyfaill mor gu.

Wrth edrych ar droion ei yrfa'n y byd,
  Nid yw ond fel doe genyf gofio
Ei weled yn fachgen bach siriol ei bryd,
  Cyn dechreu ar oes o lafurio.
Mae godreu yr Aran, a Rhiw Bwlch y Groes,
  Uchelgaer ei fro enedigol,
Yn dangos lle treuliodd foreuddydd ei oes
  Er 'stormydd y byd cyfnewidiol,
Ac yno mae'r iaith a barablodd mor bêr,
Mor loew a'r awyr, mor ddysglaer a'r sêr.

Dymunai'r ymchwilgar gael hanes ei oes,
  A mesur ei lafur a'i lwyddaint,
Ond nis gall "PERERIN" mewn awel mor groes,
  Ar ffurfiau a threfn gael fawr fwyniant.
Mwy cydnaws yw chwerwder Mara i mi,
  Yn ngalar a thristwch fy mynwes,
I dywallt fy enaid mewn dagrau yn lli
  Wrth sôn am un garwn mor gynes,
O demlau hyawdledd, duwioldeb a dysg,
Mi glywaf yr adlais, "aeth mawredd o'n mysg."

Bu duwies athrylith yn gweled ei llun
  Yn llynoedd ei fro enedigol,
Sibrydodd i'w glust ei chyfrinach ei hun,
  A rhoes ar ei wisg ei myrr nefol.
Agorodd ei phalas, a thynodd y llen
  Oddiar ei thrysorau cuddiedig ;
Ac wrth roi ei holew eneiniol o'i nen,
  Rhoes arno ei gwen fendigedig.
Ei dwylaw am wddf ei hanwylyd 'roes hi,
A'i dywys a wnaeth i anrhydedd a bri.

Os rhwng creigiau serth a rhaiadrau'r hen fro,
  Bu'n dechreu ar oes o lafurio,
Os bryniau yn fur a'r ffurfafen yn dô,
  I'r hen goleg hardd bu'n myfyrio.
Fel tyrau yr Aran yn ngoror y nen,
  Oedd mawredd a nerth ei syniadau,
Ac arlun o'i fywyd oedd pob seren wen
  Dywynai ar hen wlad ei dadau
Yn mro diniweidrwydd, bro'r defaid a'r ŵyn,
Mae hiraeth am fyned i fyw er ei fwyn.

Ar finion y Dyfrdwy, llafurus ei fyd
  Oedd ef, a bu gadarn ei gynydd,
I'r dwyfol oraclau bu'n ffyddlon o hyd,
  I'r Beibl y bu'n ddewr amddiffynydd.
Diferiad ei ddiliau oedd felus i'w fin,
  Drwy hen dduwinyddiaeth y tadau,
Cysuron ysprydol mwy gwerthfawr na'r gwin,
  Oedd dilyn eu pêr fyfyrdodau.
Dros gyfraith y nefoedd yr hoffai gael byw
Yn ngolwg y byd, ac yn ffafor ei Dduw,

Serth drumau Eryri a glywent ei glod
  Yn adsain o gymoedd Morganwg :
Cyfranu pur addysg y nef oedd ei nôd,
  Dwyn aur ei mwngloddiau i'r amlwg,
Ar faes defnyddioldeb y mynai gael byw
  A rhedeg ei yrfa 'n ddiwyrni ;—
Llafurio yn ddiwyd yn ngwinllan ei Dduw,—
  Rhoi gofal ei oes a'i serch arni :
Sychedai am undeb "yn ol yr hen drefn"
A theimlai'r gwirionedd yn graig wrth ei gefn.

Yn nhref Caerynarfon mae tŵr Dewi Sant,
  Yn golofn i'w ddiflin weithgarwch,
Lle cân an-mhlantadwy fel llawen fam plant,
  Hir gofir ei elusengarwch.
Llefaru am dano mae'r garreg o'r mur,
  A'r trawst o'r gwaith coed a'i hatteba,
Na welodd tref Arfon un bugail mwy pur,
  Nag athraw mwy coeth i'w hareithfa.
Cerddoriaeth y cysegr, a garai mor gu
Alarodd pan glywodd am ddyrnod mor ddu.

Mewn dyled,—yr Eglwys fu'n gorwedd yn gaeth,
  Fe welodd ei faes i lafurio,
Ei chodi o'r dyfnder a'i noddi a wnaeth,
  Ennillodd serch gwlad i dosturio :
Bendithion y Sant pan yn gadael y llawr,
  Cyn esgyn i gaerau gogoniant,
Ar ymdrech mor deilwng ddisgynent i lawr,
  Coronent y llafur a llwyddiant.
Cyflwynodd ein gwendid i nodded y nen,
Fe'i cofiwn nes dirwyn ein bywyd i ben.

Wrth ganfod gogwyddiad anffyddol yr oes
  Yn rhyfel y Bwrdd a'r Ysgolion,
Gofidiai wel'd milwyr hen Faner y Groes
  Yn ymladd o blaid anffyddolion.
Ac yn y gâd hono'n ddigofus ei gwedd
  'Roedd rhagfarn ac annghariadoldeb,
Mor gyndyn ag angeu, mor greulon a'r bedd,
  Wrth wrandaw ar bwyll rhesymoldeb.
Bu sêl heb wybodaeth yn arwain y gâd,
Ond cadarn a safai dros Eglwys fy ngwlad.

'Roedd " dyfroedd y gynnen " yn chwerwon eu
  A chwerwodd deimladau y ddwyblaid ; [blâs,
Pan dynai cenfigen ei hen gleddyf glâs,—
  Terfysgai yr holl anfoddlon-blaid :
Ond gosod ei wyneb fel callestr a wnaeth,
  Heb ofni llem saeth ymosodwr,
A thrwy dewder torrau'r tarianau yr aeth,
  I geisio'r cadarnaf ryfelwr.
Ac yn erbyn sêl ymosodol yr oes
Dadweiniodd ei gleddyf dros Faner y Groes.

I hen Ddinas Bangor yn Ddeon pan ddaeth
  Eangach ei faes a'i ofalon,
Ond llenwi'r swydd hono mewn urddas a wnaeth,
  A'i glod lifai dros ei hymylon.
Dymunai yr Eglwys a chewri y ffydd,
  Anrhydedd i'w gwron rhagorol,
A chael yr hyfrydwch o'i weled ryw ddydd,
  Yn esgyn i'r gadair Esgobol.
Ond cymyl orchuddiant orseddfainc yr Ior,
A ffyrdd y Jehofa sy'n nyfnder y môr.

Cenfigen merch gyntaf-anedig y fall
  Ymrithiodd fel "*Rhyddid Crefyddol.*"
Dan faner Efengyl, mor gyfrwys mor gall
  Mewn agwedd a gwisg ddefosiynol:
Terfysgai'r cenhedloedd wrth glywed ei llais,
  Myfyriai y bobloeddbeth ofer,
Ond gwelwyd mai rhagrith, gorthrymder, a thrais,
  Ysgogai ei holl grefyddolder.
'Roedd agwedd hudolus, a hoffus i hon,
Cyn gweled y dichell a'r brâd yn ei bron.

Dynoethwyd ei dichell yn ngoleu y dydd,—
  A'i theg ymadroddion bradwrus,
Dangosodd y Deon fod gwenwyn yn gudd
  Yn nghanol ei diliau hudolus.
O blaid y gwirionedd y daliodd yn dŷn,
  Hyd derfyn ei araeth fawr olaf,
Dystawodd ei lais yn nghysgodion y glyn
  Pan gollwyd y dawn gwerthfawrocaf,—
Pan gwympodd y cadarn fu'n arwain y gâd,
Yn erbyn gelynion hen Eglwys fy ngwlad,

Llefarai yn llym, bwriai gestyll i'r llawr,
  Wrth ymladd ag annghymedroldeb,
Nid ag araeth swnfawr i foddio'r gwrandawr,
  Ond a geiriau dwys difrifoldeb.
Ac fel y llefarai, arabedd yn llawn—
  Fel chwyddiad yr awel berorus,—
I gorwynt cynyddol y stor'm oedd ei ddawn
  Neu ruad y daran gynhyrfus;
Fel afon liferiol, mor nerthol, mor llawn,
Er wedi dystewi, rwy'n clywed ei ddawn.

Iaith rymus, goethedig, afaelgar, a rhydd,—
  Ddi-rodres i'r dorf a lefarai ;
Hir gofir ei ddull, a'i ddylanwad a fydd,
  Rhwng muriau'r hen Eglwys a garai,
Drwy Ddehau a Gogledd, llafurus ei oes,
  Yn mhlith cewri'r ffydd ymddysgleiriai,
Hen Eglwys ei-wlad, ac athrawiaeth y Groes
  Fel cennad ei Dduw amddiffynai.
" *Un bara, Un corph*, ydoedd testyn ei oes
' *Un ffydd, ac un bedydd*," i grefydd y groes.

Mewn cystudd rhwng angeu a bywyd y bu,
  Yn crwydro drwy gyrrau'r tir tywyll,
Ond yn y cysgodion, trugaredd yn gu,
  A'i llaw ei hun gynn'odd y ganwyll
A i goleu gynnyddodd yn seren fach dlos,
  A'i phelydr o'r nen ar ei lwybrau.
Rhoes hon iddo gymorth i ganu'n y nos,
  Rhwng creigiau serth Glyn Cysgod angau,
Ac ar ei ffordd twnodd haul haf wedi hyn,
'Roedd Duw yn ei dywys drwy gleidir y glyn.

Bu colli rhai anwyl a hoff wedi hyn,
  Yn drallod a gofid i'w galon :
Cynhefin i'w glust oedd swn dyfroedd y glyn,
  A swn troed yr hen elyn creulon,
Mae yntau o'r diwedd yn gorwedd dan gwys,
  Ei enaid mawr aeth i Baradwys,
I gynal gogonedd tragwyddol ei bwys,
  Yn swn odlau'r Anthem ddiddiwedd.
Fe gwympodd y cadarn fu'n arwain y gâd,
Yn erbyn gelynion hen Eglwys fy ngwlad.

---

ARGRAPHWYD GAN EVAN WILLIAMS, MARKET PLACE, BANGOR.

CARDIFF
UWOC LIBRARY